**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Sir S. Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir B. Hayward (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, D. Edwards, J. Prosser, A. Watts and S. White.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Sir R. Greenland (Aelod Cabinet) a'r Cynghorydd Sir V. Smith.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Cath Fallon | Head of Economy and Enterprise |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Richard Jones | Policy and Performance Officer |
| Anne Rainsbury | Curator Chepstow Museum & Deputy Museums Service Officer |
| Rachel Rogers | Curator |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir: D. Evans and A. Wintle

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Gwnaeth y Cynghorydd Sir S Jones ddatganiad buddiant personol sy'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt eitem agenda 7 - Ailbrisio Trethi Busnes, gan ei bod yn Bennaeth Consortiwm Manwerthu Cymru. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth neu bleidleisio ar hynny.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir A. Watts ddatganiad personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt eitem agenda 5 - Craffu Cyn Penderfyniad - Amgueddfeydd Sir Fynwy: Cynlluniau Pontio a'r Dyfodol gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Cas-gwent a bod Cyngor y Dref yn cyllido Amgueddfa Cas-gwent.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn bwriadu annerch y Pwyllgor Dethol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu dyddiedig 13 Hydref 2016 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

4. **Craffu Cyn-penderfyniad: Amgueddfeydd Sir Fynwy: Trosiant a Chynlluniau'r Dyfodol.**

**Cyd-destun:**

- Derbyn canfyddiadau Adolygiad Amion o Wasanaethau Diwylliannol.
- Ystyried y Siart Trosiant ar gyfer Amgueddfeydd Sir Fynwy yn seiliedig ar weithredu argymhellion allweddol Adolygiad Amion.
- Ystyried p'un ai i dderbyn a chymeradwyo'r Blaenraglen Pum Mlynedd cysylltiedig sydd ei angen ar gyfer achrediad parhaus Amgueddfeydd Sir Fynwy yn amodol ar gyflwyno achosion busnes unigol i'w cymeradwyo fel sy'n briodol.

**Materion Allweddol:**

**Canfyddiadau Allweddol Adolygiad Amion o Wasanaethau Diwyllianol**

Mae adroddiad Amion yn cydnabod nad yw'r sefyllfa fel y mae yn dderbyniol ac mae'n argymell strategaeth sy'n gostwng dyblygu mewn staffio, yn gostwng costau staff, yn gostwng gwariant ar adeiladau ac asedau ac yn realistig yn cynyddu incwm, ailddiffinio'r gwasanaeth a rhoi glasbrint cynaliadwy iddo ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn asesu darpariaeth amgueddfeydd y Sir gan ddod i'r casgliad:

- Bod y Gwasanaeth yn gorymestyn ac yn rhy ddarniog i fod yn effeithlon.
- Ychydig o rannu adnoddau ac arbenigedd sydd, gyda'r Gwasanaeth yn gweithredu fel tri chorff annibynnol.
- Mae lefel uchel o ymrwymiad ac angerdd gan staff gyda thystiolaeth glir o arfer da iawn mewn rheoli casgliadau a'r gwasanaeth a gynigir i breswylwyr ac ymwelwyr.
- Nid oes yr un o'r adeiladau yn ddelfrydol gyda diffygion mynediad a gofodau arddangos yn llesteirio ar y Fenni a Threfynwy.
- Ni all y Cyngor gyflawni arbedion i'r gyllideb bresennol heb ostyngiadau sylweddol mewn lefelau staffio ac oriau agor ac nid yw gwasanaethau cynhyrchu incwm yn cael digon o adnoddau gyda therfyn ar faint o 'elw' y gellir ei sicrhau.
- Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud llawer gormod heb adnoddau digonol. Nid yw'r cynnig yn un da i breswylwyr, ymwelwyr na staff Sir Fynwy. Felly mae angen i'r Cyngor wneud llai ond ei wneud yn llawer gwell a gwahanol.

**Argymhellion Allweddol**

Defnyddiodd Amion egwyddorion llywio ar gyfer newid wrth wneud ei argymhellion allweddol:

- Dylai lleoliad pob amgueddfa barhau i fod â modd o ddweud ei stori leol lle dylai'r straeon a chasgliadau mwyaf neilltuol ar gyfer pob lle gael eu dethol a'u cyflwyno.

- Byddai storfeydd a sgiliau canolog yn ei gwneud yn bosibl darparu'r cynnig yn well - mae canolfan gasgliadau angen mynediad i'r cyhoedd a chyfleusterau ymchwil.

- Mae'r strwythur staffio presennol yn anghytbwys ac mae angen strwythur canoledig clir.

- Mae angen presenoldeb ar-lein cryf ar gyfer treftadaeth Sir Fynwy.

- Mae angen llwybrau ar draws y sir i gysylltu straeon gyda'i gilydd a chyfathrebu'r cynnig treftadaeth tu allan i amgueddfeydd ac adeiladau.

Felly mae'r prif argymhellion fel sy'n dilyn:

- Creu cynnig amgueddfa canoledig gyda swyddogaeth arweinyddiaeth effeithlon.

- Creu canolfan casgliadau/storfa ganolog.

- Parhau i roi mynediad i dreftadaeth y sir.

- Creu cwmni masnachu gydag adnoddau cywir. Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r ADM a dyna pam nad yw'n ymddangos yn y cynllun amgueddfeydd.

**Craffu Aelodau:**

- Mae Sir Fynwy yn sir ar gyfer twristiaeth ac mae'n bwysig cadw hyn.

- Mae Sir Fynwy yn adnabyddus am ei threftadaeth.

- Mae'n synhwyrol ad-drefnu Timau Amgueddfeydd Sir Fynwy er mwyn bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

- Mae technoleg ddigidol yn hollbwysig wrth ddatblygu'r gwasanaeth amguddfeydd ac mae angen presenoldeb amgueddfeydd o fewn prif drefi Sir Fynwy ar gyfer twristiaid a phreswylwyr.

- Byddai'n ddefnyddiol derbyn mwy o fanylion ar ddyfodol amgueddfeydd Sir Fynwy drwy adroddiad i'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

- Mynegwyd consyrn fod gwallau yn adroddiad Amion ac nad yw'n rhoi arwydd clir o ble dylai'r Gwasanaeth Amgueddfeydd fod yn mynd. Yng nghyswllt yr adeiladau, ystyriwyd fod adroddiad Amion yn aneglur.

- Dylid ymdrechu i gynyddu nifer twristiaid yn Sir Fynwy yn hytrach na thorri costau i gyd-fynd gyda ffigurau presennol twristiaid.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

- Gellid canoli Amgueddfa Trefynwy yn Neuadd y Farchnad gan mai'r Cyngor Sir sydd ei piau ac y bu'n wag am dair blynedd.

- Mae cynnig Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gynnig 10 mlynedd a wnaed yn 2008 ac a gaiff ei gwblhau yn 2018.

- Yng nghyswllt Neuadd y Sir, nodwyd fod hyn yn ddryslyd ar hyn  o bryd yn nhermau ymwelwyr. Fodd bynnag, roedd angen mwy o wybodaeth am y lleoliad posibl hwn.

- Mae'n debyg y cyflwynir cynnig i Gronfa Loteri Treftadaeth ym mis Rhagfyr 2017 gyda golwg hefyd ar efallai fynediad i'r Gronfa Datblygu Gwledig ym Mawrth 2017.

- Yng nghyswllt lleoliad Amgueddfa Trefynwy, mae nifer o safleoedd posibl yn cael eu hymchwilio yn Nhrefynwy gyda golwg ar ganfod y datrysiad gorau ar gyfer y dref.

- Ystyriwyd mai Neuadd y Farchnad fyddai'r lleoliad delfrydol ar gyfer cadw arteffactau amgueddfeydd gan fod y cyfleusterau cywir eisoes yn yr adeilad.

- Mewn ymateb i gwestiynau Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd y bydd yr Awdurdod yn cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd. Mae cyfleoedd i'r Awdurdod ystyried darparu cynnig bwyd ar ein safleoedd ond bydd angen sicrhau y gwneir hyn yn y ffordd gywir. Fel rhan o'n blaenraglen gwaith, bydd yn ymwneud â dynodi'r hyn y gellir ei gyflawni, h.y. yr hyn y gall y gwasanaeth ei gyflawni gyda'r cyllidebau sydd ar gael. Ni fydd y Gwasanaeth yn rhoi unrhyw fusnesau presennol allan o fusnes. Yng nghyswllt oriau agor y Canolfannau Croeso, mae'r Awdurdod wedi edrych yn flaenorol ar ffyrdd y gellid gweithio'r ddau wasanaeth gyda'i gilydd. Fodd bynnag, y broblem sy'n parhau yng Nghas-gwent yw bod angen edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r gofod yn Amgueddfa Cas-gwent i ddynodi'r ffordd fwyaf cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau.

- Mae twristiaeth yn rhan o'r Model Darpariaeth Amgen a byddir yn sicrhau cysondeb yn y dyfodol. Ni fydd ar wahân i'r gwasanaethau eraill y mae angen i'r Awdurdod eu darparu.

- Bydd y Strategaeth Rheoli Cyrchfannau yn hollbwysig yn sut mae'r amgueddfeydd yn cynnig cysylltiadau yn y mater yma. Cynhelir gweithdy i Aelodau yn y dyfodol agos i edrych ar ffyrdd o fewnbynnu i'r strategaeth newydd. Deuir ag adroddiad ar Ganolfannau Croeso yn ôl i gyfarfod o’r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol, yn ogystal ag adroddiad ar Strategaeth Digwyddiadau'r Cyngor. Felly, mae angen gwneud penderfyniadau ar y cyd yn hytrach nag ar wahân.
- Mae cryn dipyn o ofodau agored o amgylch y gorthwr yn y Fenni a gellid defnyddio hyn i gynyddu ffrydiau incwm. Datblygwyd achos busnes gyda golwg ar osod strwythur awyr agored parhaol yn y safle gyda rhaglen dreialu digwyddiadau yn haf 2017.

- Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd bod y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn gyllid cyfalaf ac y'i defnyddir lle'n bosibl. Yng nghyswllt galw, mae angen edrych ar wella cyfleoedd i gynyddu nifer ymwelwyr.

Bydd hefyd angen trin arwyddion. Bydd creu'r strategaeth marchnata gywir yn gyrru'r galw.

**Casgliad y Pwyllgor:**

- Ar ran y Pwyllgor Dethol bydd y Cadeirydd yn anfon llythyr at yr Aelod Cabinet yn amlinellu sylwadau'r Pwyllgor Dethol.
- Mae'r Pwyllgor Dethol yn cefnogi'r argymhellion mewn egwyddor ond mae angen manylion pellach mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.
- Mae'r Pwyllgor Dethol yn cefnogi cadw cynnig amgueddfeydd cryf ac yn derbyn yr angen i fod yn gynaliadwy a'r angen i ad-drefnu'r gwasanaeth.

5. **Adroddiad Monitro Refeniw a Chyllid Cyfnod 2 Datganiad Rhagolwg Alldro.**

**Cyd-destun:**

Derbyn gwybodaeth ar ragolwg sefyllfa alldro refeniw'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 2 sy'n cynrychioli gwybodaeth ariannol mis 6 am flwyddyn ariannol 2016/17.

**Argymhellion a gynigir i'r Cabinet:**

- Bod y Cabinet yn nodi maint y gorwariant refeniw a ragwelir ar gyfnod 2 o £839,000, gwelliant o £529,000 ar y sefyllfa a adroddwyd yn flaenorol yng nghyfnod 1.
- Bod y Cabinet yn disgwyl i brif swyddogion barhau i adolygu lefelau gorwariant a thanwariant ac ailddyrannu cyllidebau i ostwng maint sefyllfaoedd gwneud iawn sydd angen eu hadrodd o fis 6 ymlaen.
- Bod y Cabinet yn gwerthfawrogi maint defnydd cronfeydd cadw ysgolion a ragwelir a'r tebygrwydd y bydd pedair ysgol arall mewn sefyllfa ddiffyg erbyn diwedd 2016-17.
- Bod y Cabinet yn cymeradwyo defnydd gydag amodau o gronfeydd cadw i gyllido £318,000 o gostau tribiwnlys cyflogaeth os na all cyllideb y Cyngor amsugno effaith y gwariant anghyffredin hwn dros y 6 mis sydd ar ôl yn y flwyddyn ariannol.
- Bod y Cabinet yn ystyried y monitro cyfalaf a gorwariant a thanwariant penodol, ac yn bwysig fod y Cabinet yn cydnabod y risg sy'n gysylltiedig gyda gorfod dibynnu ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf yn y flwyddyn gwerthiant a'r potensial i hyn gael pwysau sylweddol ar refeniw pe byddai derbyniadau'n cael eu hoedi a bod angen benthyca dros dro.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

**Craffu aelodau:**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed y cynnydd posibl yn y nifer o ysgolion Sir Fynwy mewn diffyg cyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (o chwe ysgol i ddeg ysgol), nodwyd fod yr amrywiad niweidiol yn fach mewn natur. Anogir ysgolion i gael llai o falans er mwyn rhoi llai o ddibyniaeth ar grynhoi balans sylweddol a gostwng newidiadau cyflym. Mae'n debygol y bydd y pedair ysgol a all fod mewn balans diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol â diffyg o lai na £10,000. Hefyd, mae tueddiad cyffredinol lle mae ysgolion sy'n derchrau'r flwyddyn gyda diffyg cyllideb yn gostwng a bod y sefyllfa'n gwella.

- Yng nghyswllt Ysgol Cas-gwent, nodwyd y gwnaed gwelliannau yng nghyswllt y gyllideb ddiffyg gyda help Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am y gyllideb Gwasanaethau Oedolion, nodwyd fod gan Sir Fynwy gynnydd yn y boblogaeth oedrannus a disgwyliadau am ddarpariaeth gofal. Mae hyn yn fater sydd angen ei ystyried. Mae Aelodau etholedig yn gorfod gwneud dewisiadau anodd flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda phob cyllideb adrannol. Mae swyddogion ym mhob rhan o'r Awdurdod felly'n gorfod ailwampio cynlluniau gyda golwg ar orfod gwneud pethau'n wahanol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am y Farchnad Wartheg yn Rhaglan, nodwyd fod peth gwaith yn dal ar ôl cyn y bydd yr Awdurdod yn dod yn gyfrifol amdani. Mae'n dal i fod ar y cam comisiynu.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

- Bod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.

- Bod y Rheolwr Craffu yn gwahodd y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu i gyfarfod y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf pan drafodir y mater yn ymwneud â'r Farchnad Wartheg yn Rhaglan.

6. **<u>Ailbrisio Trethi Busnes – diweddariad llafar.</u>**

**Cyd-destun:**

Derbyn adroddiad llafar ar yr ailbrisiad trethi busnes.

**Materion Allweddol:**

Dadansoddi Sefyllfa:

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

Yn dilyn y drafft diweddar o'r ailbrisiad trethi busnes, dynododd dadansoddiad mewnol fod 65% o werthoedfd trethiannol Sir Fynwy wedi cynyddu, 11% wedi aros yr un fath a 24% wedi gostwng.

Dywedodd ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru y bydd tua hanner yr holl drethdalwyr yn parhau i dalu dim yn dilyn yr ailbrisiad fel canlyniad i'r gefnogaeth gan Gynllun Cymorth Trethi Bach (SBRR). Fodd bynnag, mae dadansoddiad yn dangos mai dim ond 44.7% o drethdalwyr fydd yn derbyn SBBR llawn (i lawr o 51.5%) ac na fydd 31.9% o fusnesau Sir Fynwy yn derbyn dim cymorth dan SBRR (cynnydd o 17.3%). Lle nad yw busnes eisoes yn gymwys am SBBR, ni fydd yn gymwys am gymorth pontio dan gynigion presennol Llywodaeth Cymru.

Os aiff yr ailbrisiad yn ei flaen, mae'n debyg o gael effaith sylweddol ar fusnesau lleol Sir Fynwy, y sector manwerthu fydd yn profi cynnydd cyffredinol yn y sector o 11%, yr uchaf yn Ewrop. Ymddengys fod cyfleusterau lleol, yn cynnwys swyddfeydd post, tafarndai a neuaddau pentref hefyd yn neilltuol o fregus fel canlyniad i'r ailbrisiad. Mae'r tabl islaw'n rhoi dadansoddiad o'r newidiadau canran ar sail tref wrth dref:

| **Tref** | **% Cynnydd** | **Dim Newid** | **% Gostyngiad** |
|---|---|---|---|
| **Y Fenni** | 68 | 10 | 22 |
| **Cil-y-coed** | 41 | 22 | 37 |
| **Cas-gwent** | 64 | 12 | 24 |
| **Trefynwy** | 84 | 5 | 11 |
| **Brynbuga** | 89 | 5 | 6 |

Gweithredu hyd yma:

Gan fod 'Cefnogi menter, entrepreneuriaeth a chreu swyddi' yn un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor, cymerwyd y camau gweithredu dilynol i godi ymwybyddiaeth o'r mater ac effaith bosibl hyn ar lif arian busnesau lleol Sir Fynwy:

- **4 Tachwedd 2016**: Cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Arweinydd â David Davies AS i sôn am bryderon.

- **30 Tachwedd 2016**: Bydd y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd Siambr Trefynwy (yn cynrychioli holl Siambrau Sir Fynwy) yn cwrdd gyda'r Prisiwr Ardal i:

    - Gofyn am ohirio'r ailbrisiad fel y medrir archwilio'r fethodoleg. Mae angen deall pam fod Sir Fynwy'n profi cyfran mor uchel o'r cynnydd pan fo anghysondebau gyda siroedd eraill. Mae'n rhaid i'r system gael ei gweld fel un dryloyw a theg.

    - Deall os oes cyfle i'r Cyngor wneud apêl dechnegol ar ran busnesau'r Sir, er nad yw'r Awdurdod yn gwybod am fethodoleg bresennol fydd yn ei alluogi i wneud hynny.

- Fel arall, ceisio sicrwydd y dylai'r rhai sy'n apelio yn erbyn yr ailbrisiad yn cael gohirio'r cynnydd nes caiff yr apeliadau eu penderfynu. Gallai busnesau y gofynnir iddynt dalu'r cynnydd annisgwyl yma wynebu problemau llif arian difrifol. Os yw Llywodraeth Cymru'n gwrthod ailedrych ar y cynigion hyn, gallai Sir Fynwy golli rhai o fusnesau eiconig y Sir.

- **1 Rhagfyr 2016**: Y Cynghorydd Sir Greenland i gyflwyno cynnig i'r Cyngor yn annog Llywodraeth Cymru i ohirio'r drafft gynigion hyn i roi amser am adolygiad trwyadl o'r fethodoleg ac ystyried canlyniadau'r ailbrisiad. Hefyd galw ar Lywodraeth Cymru i beidio gorfodi unrhyw gynnydd nes bydd canlyniadau'r apeliadau yn hysbys a hefyd am drefniadau pontio sy'n dangos cydymdeimlad ar gyfer pob busnes gan nad yw Llywodraeth Cymru, er ei bod wedi cyhoeddi cynllun trosiannu ar gyfer busnesau bach y mae'r cynnydd yn effeithio arnynt, wedi gwneud yr un fath ar gyfer busnesau mwy a gaiff eu taro'n waeth.

- **5 Rhagfyr 2016:** Mae Nick Ramsay AC yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Goffa Brynbuga am 7.30pm.

**Craffu Aelodau:**

- Cymeradwyodd y Pwyllgor Dethol yr wybodaeth a gafwyd yn y diweddariad llafar a chytunodd Aelodau godi eu pryderon yn y Cyngor Llawn.

- Ystyriwyd fod angen trin a datrys y mater mor gyflym ag sydd modd er mwyn cynnal hyfywedd busnesau yn Sir Fynwy.

- Byddir yn e-bostio'r adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Dethol.

- Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y mater hwn yn un difrifol i lawer o fusnesau Sir Fynwy. Mae'n debygol y bydd y busnesau lleol llai yn debygol o ddioddef dan y cynigion hyn. Nodwyd y gallai Llywodraeth Cymru ohirio'r cynnydd a rhoi gwell cyfnod pontio. Codir y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru.

- Ystyriai rhai Aelodau o'r Pwyllgor Dethol y gallem, fel Cyngor, gefnogi busnesau lleol drwy beidio codi ffi am fusnesau am fyrddau 'A' gyda golwg ar ddangos cefnogaeth. Ystyriwyd na fyddai oblygiad cost cyflwyno'r ffi hwn yn creu fawr iawn o fudd ariannol i'r Cyngor. Gallai fod yn well peidio'i gyflwyno, ac felly gefnogi busnesau lleol. Gofynnodd yr Is-gadeirydd i'r swyddogion edrych ar y mater ond nododd mai mater trethi busnes oedd y prif fater oedd angen ei drafod.

**<u>Casgliadau'r Pwyllgor:</u>**

Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd yr Is-gadeirydd i'r swyddog am gyflwyno'r adroddiad llafar ac anogodd y Cabinet a swyddogion eraill i wneud yr hyn a allant i helpu busnesau i oresgyn y mater anodd iawn yma.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

7. **Amcanion Gwella a Dangosyddion Perfformiad – Diweddariad 2016/17 Chwarter 2.**

**Cyd-destun:**

Derbyn data perfformiad chwarter 2 ar gyfer yr Amcanion Gwella sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a derbyn gwybodaeth ar y perfformiad diweddaraf o gymharu â'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol allweddol ehangach sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

**Materion Allweddol:**

Caiff yr Amcanion Gwella eu gosod yn flynyddol gan y Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Caiff y rhain eu gosod yng Nghynllun Gwella'r Cyngor 2016/17. Er bod ffocws yr amcanion ar yr hirdymor, mae gan y gweithgareddau penodol sy'n eu cefnogi ffocws neilltuol ar y flwyddyn i ddod.

Mae gweithgaredd sy'n cyfrannu at gyflenwi rhai o'r amcanion yn gorgyffwrdd â chylchoedd gwersyll Pwyllgorau Dethol a rhoddir adroddiad ar hyn i'r pwyllgorau erial perthnasol.

Caiff yr Amcanion Gwella eu gwerthuso ar ddiwedd y flwyddyn (2016/17) yn seiliedig ar fframwaith hunanwerthuso'r Cyngor, fel y nodir yng Nghynllun Gwella 2016-17. Adroddir ar eu perfformiad i'r Pwyllgor Dethol ac yng Nghynllun Gwella Cam 2 a gyhoeddir ym mis Hydref bob blwyddyn.

Mae hyn yn debyg o fod y cylch blynyddol olaf Cynllunio Gwella yn y fformat hwn. Mae'r Cyngor yn cynnal dau asesiad sylweddol ar hyn o bryd ar angen a llesiant o fewn y Sir fel canlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi sylfaen tystiolaeth llawer dyfnach o lesiant yn y Sir ac fe'i defnyddir i adolygu amcanion gwella presennol y Cyngor wrth baratoi ar gyfer cyhoeddi amcanion llesiant y Cyngor erbyn 31 Mawrth 2017.

Mae Atodiad C yr adroddiad yn nodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol pellach o'r Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol sydd o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor. Y prif bwrpas yw amlygu'r perfformiad a gyflawnwyd hyd yma yn 2016/17. Lle mae'r dangosyddion yn cyfeirio at berfformiad gwasanaethau sydd dan gylch gorchwyl mwy nag un pwyllgor cânt hefyd eu hadrodd i'r pwyllgorau perthnasol eraill.

**Craffu Aelodau:**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am gynnydd gwasanaethau twristiaeth, hamdden a diwylliant a bod y cynnydd 'ar darged', nodwyd y caiff cerrig milltir eu gosod yn nhermau cynnydd at hynny. Mae'r targed yn yr achos hwn yn cyfeirio at gwblhau'r gwerthusiad opsiynau erbyn Hydref 2016, ar ôl cael ei osod ym Mai 2016. Felly, cafodd y targed ei gyrraedd.
- Hyrwyddwyd cynllun benthyca lleoedd hyblyg drwy wefan y Cyngor, tudalen Facebook y Cyngor, Twitter a datganiadau i'r wasg i gyfleu'r neges.

- Mae gan y cam gweithredu yn gysylltiedig â'r Ddêl Dinas garreg filltir i'w chyrraedd erbyn mis Mawrth 2017. Cadarnhaodd Rheolwr y Pwyllgor Dethol bod y mater hwn ar y rhaglen waith a ddeuir i'r Pwyllgor Dethol ar yr amser priodol.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed data STEAM a sut y caiff ei gasglu, nodwyd y gallai'r Rheolwr Twristiaeth roi diweddariad i'r Aelod am y mater.

**Casgliad y Pwyllgor:**

- Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.
- Y Rheolwr Twristiaeth i roi gwybodaeth i'r Aelod o'r Pwyllgor Dethol ar sut y data STEAM ei gasglu.
- Cyflwyno adroddiad yn diweddaru ar y Ddêl Dinas i gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

8. **Diweddariad Y Prentis a Diweddariad CMC2.**

**Cyd-destun:**

Derbyn diweddariad ar weithgareddau Y Prentis a'i fanteision i ranbarth ehangach De Ddwyrain Cymru. Ystyried diddymu CMC$^2$.

**Materion Allweddol:**

Sefydlwyd Y Prentis gan CMC$^2$ a Cartrefi Melin fel cwmni di-elw cyfyngedig drwy warant ym mis Medi 2012. Mae Y Prentis yn darparu cynllun rhannu prentisiaeth ar draws y De Ddwyrain mewn partneriaeth gyda'r CITB. Ei weledigaeth yw 'rhoi cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy hirdymor i helpu pobl ifanc i gynyddu eu potensial i'r eithaf a sicrhau cyflogaeth ffrwythlon yn y dyfodol.'

Bu Y Prentis yn stori o lwyddiant i CMC$^2$. Mae'n broffidiol, a chaiff ei gefnogi gan ardoll o'r sector adeiladu ac mae wedi galluogi mwy na 160 o bobl ifanc i gael prentisiaethau cynaliadwy ar gyflog byw. Ymhellach, mae'r potensial bellach yn bodoli ar gyfer parhau i ddatblygu ac ehangu'r cwmni, o gofio am y Ddêl Dinas a datblygiadau seilwaith sylweddol a chyfleoedd megis y Ganolfan Gofal Critigol yn Nhorfaen. Heblaw am y Prentis, mae CMC$^2$ wedi creu manteision i gymunedau Sir Fynwy i fanteisio ar fand eang, MonmouthpediA, cynhwysiant digidol a thwristiaeth. Yn nhermau ei gyfraniad at y Cyngor, mae'r gwaith ar ddatblygu system gofal cymdeithasol newydd (FLO/PLANT) wedi arbed tua £150,000 yn flynyddol i'r Cyngor mewn ffioedd trwydded.

Gyda'r gwaith o ddatblygu'r meddalwedd wedi ei orffen a heblaw am weithrediad parhaus Y Prentis, mae CMC$^2$ wedi gorffen masnachu ac mae wedi ymwneud â chwblhau prosiectau byw ers mis Gorffennaf 2015 pan gymeradwyodd y Cabinet gyllid wrth gefn ar gyfer ei golledion cronnus. Fodd bynnag, ni chafodd ei ddiddymu bryd hynny gan ei fod yn rhan o werthusiad opsiynau i ystyried strwythur cyflenwi addas ar gyfer y Model Darpariaeth Amgen a ystyrir ar gyfer Twristiaeth, Hamdden a Gwasanaethau Diwylliannol. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad nad CMC$^2$ yw'r cyfrwng cywir ar gyfer y Model Darpariaeth Amgen felly cynigir yn awr fod y cwmni'n cael ei ddiddymu'n ffurfiol.

Drwy wneud hynny cynigir bod un cyfrif dyledus o £90,000 yn ymwneud â gwasanaethau datblygu meddalwedd ar gyfer Skutrade yn cael ei briodoli i'r Cyngor. Roedd y Cyngor wedi ymgysylltu ar wahân gyda Skutrade i benderfynu os gallai gefnogi cystadleurwydd busnesau Sir Fynwy. Ystyrir fod adfer cyfrif Skutrade yn fater ar wahân a rydym yn weithio gyda'r cwmni i setlo'r cyfrif.

Gan fod CMC$^2$ wedi cofrestru fel cydberchennog Y Prentis gyda Cartrefi Melin, cynigir yn dilyn diddymu fod perchnogaeth y cwmni'n trosglwyddo i'r Cyngor, sy'n dod yn gydberchennog y cwmni dielw cyfyngedig drwy warant, sy'n llwyddiannus o'i ran ei hun. Mae'r cwmni yn awr yn dal gwargedion cronnus o £240,000 (y disgwylir y byddant yn cyrraedd £260,000 erbyn 31 Mawrth 2017). Mae'n rhaid hefyd ystyried potensial twf ychwanegol y dyfodol gyda chynlluniau buddsoddi seilwaith mawr yn y rhanbarth hefyd o gofio am gylch gorchwyl Y Prentis i weithio ar raddfa ranbarthol.

**Craffu Aelodau:**

- Dod â chynllun busnes Y Prentis i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Dethol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am berchnogaeth CMC$^2$ o Y Prentis, nodwyd pan sefydlwyd CMC$^2$, ei fod yn cael ei ystyried yn gyfle perffaith i CMC$^2$ a Y Prentis i alinio, a gwnaed penderfyniad i wneud hynny. Fodd bynnag, mae angen symud Y Prentis oherwydd diddymu CMC$^2$.

- Roedd rhan o ffocws CMC$^2$ yn cynnwys ynni cynaliadwy ond nid dyna'r unig ffocws. Roedd erthyglau'r cwmnïau mewn sgiliau hyfforddi ac adnewyddu. Roedd yr hyblygrwydd gan CMC$^2$ bob amser i weithredu mewn llawer o feysydd.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am ei lwyddiant, nodwyd y bu cynllun prentisiaeth brwdfrydig a datblygiadau meddalwedd newydd. Ymddengys mai dyma'r amser i'w ddod ag ef yn ôl yn fewnol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am eiddo deallusrol y system, nodwyd yng nghyswllt FLO/PLANT y bu pethau'n faith lle datblygwyd cysylltiadau cryf gyda thai meddalwedd a darparwyr eraill sydd wedi cymryd diddordeb brwd yn yr hyn a gynhyrchwyd. Fodd bynnag, mae newidiadau yn y farchnad wedi arwain at i rai o'r cwmïau gael eu cymryd drosodd sydd wedi golygu fod y llwyfan yn y broses o gael ei werthu ymlaen. Ceisir prisiad gan y Prisiwr Ardal. Yr Awdurdod yw perchennod y cyfeiriad IP a'r cod. Yng nghyswllt gwaith datblygu ar

gyfer yr Awdurdod, lle ysgrifennwyd contractau roedd yr Awdurdod yn cadw'r cyfeiriad IP. Ar gyfer unrhyw waith datblygu meddalwedd gyda chwmniau preifat, roedd deiliad y cyfeiriad IP yn amrywio. Nid oes unrhyw eiddo deallusol gan CMC$^2$ heblaw un prosiect datblygu meddalwedd. Yng nghyswllt pwy sy'n berchen yr eiddo deallusol yma, bydd angen canfod hyn drwy broses gyfreithiol. Felly ni chaiff y cwmni ei ddiddymu nes bod eglurhad ar y mater.

- Roedd Aelod o'r Pwyllgor Dethol wedi mynegi siom a holodd am ddiben CMC$^2$. Nodwyd yr amlygir nifer o enghreifftiau yn yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith da a wnaethpwyd. Fodd bynnag, cyrhaeddwyd y pwynt lle daeth angen i ddod â gweithgareddau i ben a diddymu'r cwmni.

- Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mai diben CMC$^2$ oedd symud ymlaen gyda meysydd diddordeb ar gyfer y gymuned a dod â phobl i'r Cwmni Budd Cymunedol (CIC) oedd â sgiliau ac oedd yn medru symud ymlaen â'r materion yr hoffai'r Awdurdod euu gwneud ond nad oedd o fewn cylch gorchwyl cyffredinol y Cyngor gan felly ddatblygu manteision i'r gymuned na fyddid wedi eu cyflawni. Bu'r cwmni'n llwyddiannus yn ystod ei gyfnod gweithredu.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd fod y Cabinet yn derbyn cynllun busnes CMC$^2$ yn flynyddol ac y bu craffu cyn-penderfyniad gan y Pwyllgor Dethol bob tro y'i cyflwynwyd i'r Cabinet.

**Casgliad y Pwyllgor:**

- Mae Y Prentis yn haeddu craffu pellach a daw'r mater gerbron y Pwyllgor Dethol yng ngwanwyn 2017.

- Derbyn yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad, sef:

  - Derbyn diweddariad llawn ar weithgareddau Y Prentis.
  - Cymeradwyo diddymu CMC$^2$.
  - Cytuno i bridoli dyled i'r Cyngor ar gyfer dibenion adfer.
  - Fel canlyniad i'r symudiadau uchod, cytuno i drosglwyddo perchnogaeth Y Prentis yn ffurfiol o CMC$^2$ i Gyngor Sir Fynwy.

9. **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.**

Craffwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu. Nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Cynhelir cyfarfod cyffredin y Pwyllgor Dethol ar 5 Ionawr 2017 am 10.00am (cyfarfod drwy'r dydd).

- Cynhelir Gweithdy Twristiaeth yn ymwneud â'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau ar 12 Ionawr 2017 am 10.00am.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 24 Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

- Cynhelir cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu yn Ionawr 2017. Eitemau ar yr agenda:

  - Manteision cynnal y Velothon.
  - Dêl Dinas.
  - Gwaith amgueddfeydd.
  - Ailstrwythuro Menter.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

**10. Cyngor a Blaengynllun Busnes y Cabinet.**

Craffwyd Blaengynllun Busnes y Cyngor a'r Cabinet.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am yr adroddiad Llywodraethiant Cymunedol, byddai'r Rheolwr Craffu yn cydlynu gydag Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i ganfod pryd y mae'n debyg y bydd y Pennaeth Llywodraethiant, Ymgysylltu a Gwella yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

**11. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Dydd Iau 5 Ionawr, 2017 am 10.00am.